Annwyl Syr/Madam,

Ysgrifennaf atoch ar ran Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Mon.

Gweler e-bost 3ydd Rhagfyr 2018, mae nifer o ddogfennau wedi eu hatodi yn nodi gwaith y mudiad ar Ynys Môn.

Mae’r rhain yn cynnwys:

1. Adroddiadau Clwb 2017/2018
2. Cylchlythyrau 2018
3. Blwyddlyfr 2018

Mae’r dogfennau yma yn cynnwys manylion am weithgareddau a digwyddiadau mae’r mudiad yn eu cynnal yn Ynys Môn yn y chwe clwb ardal sef:

1. Bodedern
2. Dwyran
3. Llangefni
4. Llangoed
5. Penmynydd
6. Rhosybol

Fe welwch o’r dogfennau fod y bobl ifanc yn gweithio’n galed iawn yn eu cymunedau ac yn cadw’r Iaith Gymraeg yn fyw yng nghefn gwlad ac yn y diwydiant amaethyddol.

Yn y mudiad ar Ynys Môn mae 225 o aelodau rhwng 10 a 26 mlwydd oed sydd yn gwirfoddoli yn y clybiau ac mae’r mudiad i gyd yn cael ei arwain a’i redeg gan y bobl ifanc.

Mae Ffermwyr Ifanc ar Ynys Môn yn ased werthfawr iawn i bobl ifanc, i’r Iaith Gymraeg ac i ddiwylliant yr ynys.

Mae datblygiad Horizon yn mynd i gael effaith sylweddol ar Ynys Mon yn ystod adeiladu ac wedi iddo ddechrau cynhyrchu trydan. Mi fydd yr effaith ar yr Iaith Gymraeg, ein diwylliant a’r byd amaethyddol yn sylweddol iawn, ac mae’n bwysig fod y Mudiad yn cael ei gynrychioli yn eich cynlluniau datblygu yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Edna Jones

Swyddog Datblygu Ffermwyr Ifanc Ynys Mon